

All y nefoedd fod yn uffern?

“Oddi allan y mae’r cŵn, y dewiniaid, y puteinwyr, y llofruddion, yr eilunaddolwyr, a phawb sy’n caru celwydd ac yn ei wneud.” (adn. 15)

Beth am ddarllen Datguddiad 22: 12–21ac yna myfyrio

Heddiw, yr ydym am barhau i fyfyrio ar y gwirionedd mai’r unig ffordd i osgoi uffern ac i gyrraedd y nefoedd yw trwy ildio ein hewyllys, ildio ein henaid i ddwylo trugarog Iesu Grist. Ond beth os ydym yn anfodlon i ildio? Beth yw tynged yr unigolyn hwnnw?

Yr wyf am ddweud ychydig am hanes gŵr arbennig, y gŵr mwyaf calon-galed a adnabyddais erioed. Er ei fod yn ŵr gweddol gyfoethog, yr oedd yn trin ei wraig fel darn o faw. Roedd yn fwli yn ei berthynas â’i blant. Roedd yn defnyddio’r iaith fwyaf anweddus gyda phawb ac yn gwawdio’r syniad o Dduw. “Os yw Duw yn bodoli,” meddai, “yna, nid yw’n ddim gwahanol i ni. Nid yw’n poeni dim am y bydsawd, a dwi ddim chwaith.” Bu farw, mor belled ag y gwyddom, heb edifarhau. Ychydig oriau cyn ei farwolaeth, fe’i clywyd yn dweud: “Os oes yna uffern, yna dyna’r lle yr wyf am fynd. Ni allwn ddychmygu bod gyda’r bobl dda yma.”

Nawr, rhaid bod yn ofalus nad ydym yn dweud nad yw dyn fel hwn yn haeddu’r nefoedd a’i fod yn haeddu uffern, oherwydd nid yw hyn yn agwedd meddwl Gristnogol. Nid yw ewyllysio colledigaeth dragwyddol rhywun yn ddim mwy na phechod. Ond os nad yw dyn neu wraig yn barod i blygu glin i Iesu, pa dynged sydd yn eu disgwyl? Eu rhoi yn y nefoedd gyda’r rhai sydd wedi derbyn maddeuant ac wedi eu hachub, a’u gadael yno yn chwerthin yn braf oherwydd eu bod wedi twyllo pawb a phopeth? Mae’r fath syniad yn nonsens. Yr unig dynged sydd yn aros y rhai sydd yn mynnu gwrthod Iesu Grist yw uffern. Mi fuasai eu rhoi yn y nefoedd yn gwneud y nefoedd yn uffern. Nid wyf yn dweud hyn mewn unrhyw ffordd goeglyd, ond ymdrech sydd yma i gyfleu’r ffeithiau fel y maent yn yr Ysgrhythur.

Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Math. 13:24–30; 13:49; 25:31–46

Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Beth, yn ôl Iesu, yw’r hyn sydd yn gwahaniaethu?
2. Sut mae’n darlunio hyn?

Gweddi

O Dad, rwy’n diolch i ti fod dy iachawdwriaeth, nid yn unig yn fy mharatoi ar gyfer y nefoedd, ond yn fy mharatoi i fwynhau’r nefoedd. Am hyn rwy’n diolch. Amen.